# Cyflwyno pedair medal Gee yn y Tabernacl, Caerdydd

Ar Sul olaf Tachwedd cafwyd cyfle i gyflwyno pedair medal Gee yng nghapel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd, a hynny i Catrin Bell, Bill a Ruth Davies, ac Eirlys Pritchard Jones, fel arwydd o werthfawrogiad yr eglwys o'u gwasanaeth clodwiw. Roedd yr oedfa dan ofal y Parch. Aled Davies, gyda gweinidog yr eglwys, y Parch. Rosa Hunt, hefyd yn rhan o'r gwasanaeth. Croesawyd pawb i'r oedfa gan Rosa, a gymerodd y cyfle ar ddechrau'r oedfa i ddiolch i ddau ddiacon am dymor arbennig o wasanaeth, wrth iddynt ymddeol o'u dyletswyddau, sef Eirlys Pritchard Jones a Huw Jones. Darllenwyd cerddi wedi eu cyfansoddi ar eu cyfer gan Catrin Dafydd a Lisa Tiplady, a chyflwynwyd copi wedi'i fframio iddynt o'r cerddi hynny.

Yna, fe gafwyd gair i'r plant gan Aled yn sôn am bwysigrwydd yr ysgol Sul a'r angen i ddal ati. Dywedodd y byddai'n hoffi meddwl y byddai rhywun yn dychwelyd i'r capel ar ran y Cyngor Ysgolion Sul mewn 70 mlynedd i gyflwyno medalau iddynt hwythau fel arwydd o'u ffyddlondeb hwythau i'r ysgol Sul.



Yn y llun, o'r chwith i'r dde mae Aled Davies, Bill Davies, Eirlys Pritchard Jones, Catrin Bell, Ruth Davies, Rosa Hunt a Rheinallt Thomas

Aed ati wedyn i gyflwyno'r pedair medal, gan gydnabod a diolch am gyfraniad nodedig y pedwar oedd yn eu derbyn i fywyd a gweithgarwch yr ysgol Sul o fewn yr eglwys, ac yn hanes Bill a Ruth eu cyfraniad yn aelodau yn Eglwys Emaus, Bangor, hefyd cyn iddynt symud i Gaerdydd. Estynnwyd llongyfarchiadau calonnog i'r pedwar ohonynt ar dderbyn eu medalau, gyda chlapio'r gynulleidfa'n atseinio drwy'r capel fel arwydd o'u gwerthfawrogiad hwythau.

Braf hefyd oedd cael Llywydd Anrhydeddus y Cyngor, Mr Rheinallt Thomas, yn bresennol, a daeth yntau ymlaen i sôn am hanes y medalau a rhannu ychydig o hanes y teulu Gee. Wedi'r cyflwyno, cynhaliwyd oedfa o dan arweiniad Aled, cyn cloi gyda gair o ddiolch gan Robin Gwyndaf. Cyhoeddwyd y fendith gan y Parch. Geraint Morse, Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru.

Cofiwch fod modd enwebu ffyddloniaid i dderbyn medal; mae ar gael i bawb dros 75 oed sy'n parhau'n ffyddlon i fywyd yr ysgol Sul. Ceir mwy o wybodaeth ar wefan www.ysgolsul.com.

# Lansio *Eglwys y Bobl 3 – blwyddyn C*

Ar drothwy Sul Cyntaf yr Adfent, sy'n nodi blwyddyn newydd yn y calendr eglwysig, daeth criw da ynghyd yn Athrofa Padarn Sant, Llandaf, Caerdydd, i lansio'r drydedd gyfrol mewn cyfres o dair, sef Eglwys y Bobl 3, cyfrol ar gyfer Blwyddyn C o'r Llithiadur. Mae'r gyfrol yn cynnwys myfyrdodau gwreiddiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r rheini wedi eu paratoi gan fyfyrwyr yr Athrofa ac eraill.

Bellach mae'r tair cyfrol ar gael, ac yn cynnig pregeth ddwyieithog ar gyfer pob un Sul dros gyfnod o dair blynedd. Roedd y project yn ffrwyth cydweithio rhwng yr Athrofa yn Llandaf a'r Cyngor Ysgolion Sul, ac wrth lansio'r drydedd gyfrol, diolchodd Aled Davies am y cydweithio hapus ac am waith arbennig Angharad Gaylard a Manon Ceridwen James.

Cafwyd swper tri chwrs arbennig fel rhan o'r lansiad, yn ddathliad o ddiolchgarwch o gwblhau'r gyfres. Mae'r llyfrau ar gael erbyn hyn yn eich siop lyfrau Cymraeg leol, a hynny am £13.99 yr un. Ceir mwy o wybodaeth ar wefan www.ysgolsul.com



